Teitl y Swydd: Rheolwr Cynnal a Chadw Statudol

Uned/Ysgol: Amgylcheddau'r Brifysgol

Gradd: 7A/B

HERA: UE6

**Prif bwrpas y rôl**

Mae'r Rheolwr Cynnal a Chadw Statudol yn chwarae rhan hanfodol o fewn y Tîm Cynnal a Chadw a Datblygu'r Ystadau, gan ddarparu arweinyddiaeth arbenigol a rheolaeth weithredol i sicrhau bod ystâd y Brifysgol yn parhau i gydymffurfio'n llawn â'r holl rwymedigaethau statudol, rheoleiddiol ac iechyd a diogelwch. Bydd deiliad y swydd yn cefnogi amcan strategol y Brifysgol i ddarparu amgylchedd diogel, hygyrch, cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, yn unol â Strategaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd 2030 ac ymrwymiad i dargedau carbon sero net.

Bydd deiliad y swydd yn rheoli cynllunio, amserlennu, cyflwyno ac archwilio rhaglenni cynnal a chadw statudol a phrofi cydymffurfiaeth ar draws holl gampysau a chyfleusterau'r Brifysgol. Mae'r rôl yn cynnwys gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol a chontractwyr allanol i sicrhau'r safonau uchaf o gydymffurfiaeth statudol a pherfformiad rheoleiddiol.

Bydd deiliad y swydd yn rhan o dîm bach, cydweithredol a disgwylir iddo weithio'n hyblyg i gefnogi swyddogaethau a blaenoriaethau cysylltiedig eraill yn ôl yr angen, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer y tîm a'r Brifysgol gyfan.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Arwain y rhaglenni cynnal a chadw a chydymffurfiaeth statudol, gan gynnwys cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio (PPM), profion statudol ac arolygiadau i fodloni gofynion deddfwriaethol.

- Darparu arweinyddiaeth, cyfeiriad a rheolaeth linell o ddydd i ddydd i aelodau'r tîm cynnal a chadw statudol, gan gefnogi eu datblygiad proffesiynol a sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu'n gyson.

- Sicrhau cydymffurfiaeth lawn â rhwymedigaethau statudol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, diogelwch tân, hylendid dŵr, diogelwch trydanol, diogelwch nwy, archwiliadau lifftiau, rheoli asbestos, systemau pwysau, ac offer mynediad.

- Datblygu, gweithredu a monitro systemau a phrosesau cadarn i olrhain cydymffurfiaeth statudol ar draws holl asedau'r Brifysgol.

- Rheoli ac archwilio perfformiad contractwyr a darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau cynnal a chadw statudol.

- Gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol a chynghorydd technegol ar gyfer materion cynnal a chadw statudol i'r Tîm Cynnal a Chadw a Datblygu'r Ystadau a'r Brifysgol yn ehangach.

- Darparu dangosfyrddau cydymffurfiaeth misol, dangosyddion perfformiad allweddol, ac adroddiadau i uwch reolwyr.

- Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth a thystysgrifau statudol yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac ar gael ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol.

- Drwy weithio gydag eraill, cydlynu a mireinio'r system i sicrhau data ac adrodd cydymffurfiaeth statudol cywir.

- Cysylltu â thimau Iechyd a Diogelwch, Ystadau a Chyfleusterau i gefnogi asesiadau risg a systemau gwaith diogel.

- Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli), gan gynnwys cadarnhau rôl y Cleient a/neu'r Prif Ddylunydd ar gyfer gwaith sy'n cael ei wneud o dan gyfarwyddyd deiliad y swydd a chyfarwyddyd uniongyrchol.

- Arwain adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd i wella perfformiad cydymffurfio statudol yn barhaus.

- Cynnal gwybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth, arferion gorau'r diwydiant, a safonau technegol.

- Sicrhau bod gweithgareddau cynnal a chadw statudol yn cael eu cyflawni mewn ffyrdd sy'n lleihau aflonyddwch ac yn gwella profiad myfyrwyr ar draws holl gampysau'r Brifysgol.

- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth i staff sy'n ymwneud â gweithgareddau cynnal a chadw statudol.

- Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag Ysgolion, Gwasanaethau Proffesiynol a chontractwyr.

- Gweithio gyda chyrff allanol, e.e. yswirwyr, archwilwyr, yr HSE, lle bo angen, a sicrhau parodrwydd ar gyfer archwiliadau.

- Cefnogi ymateb brys a dyletswyddau cynnal a chadw adweithiol yn ôl yr angen.

- Hyrwyddo diwylliant cryf o iechyd a diogelwch, cydymffurfiaeth, a gwasanaeth cwsmeriaid ar draws y swyddogaeth ystadau.

- Parodrwydd i weithio fel rhan o rota ar alwad, gan ymateb i argyfyngau annisgwyl a goruchwylio gwaith y mae angen ei wneud y tu allan i oriau gwaith.

## Manyleb person

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- HNC, HND neu gymhwyster cyfatebol mewn disgyblaeth berthnasol ym maes gwasanaethau adeiladu, peirianneg neu reoli cyfleusterau.

- Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol (e.e. IWFM, IHEEM, IET).

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Profiad sylweddol o reoli cydymffurfiaeth statudol, gwella cyflwr, a rhaglenni cynnal a chadw cynlluniedig o fewn amgylcheddau ystadau a chyfleusterau.

2. Gwybodaeth dechnegol gref am ofynion cydymffurfio statudol ar draws sawl math o asedau.

3. Profiad blaenorol o reoli contractwyr a monitro perfformiad darparu gwasanaethau.

4. Sgiliau trefnu a chynllunio cryf gyda'r gallu i flaenoriaethu a rheoli nifer o raglenni.

5. Profiad o ddatblygu a chynnal systemau olrhain cydymffurfiaeth statudol.

6. Sgiliau dadansoddi a datrys problemau cryf.

7. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol.

8. Ymrwymiad i wasanaeth cwsmeriaid a gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid.

9. Gwybodaeth am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, asesiadau risg, a systemau gwaith diogel.

10. Gwybodaeth a phrofiad ymarferol o ddefnyddio systemau CAFM.

11. Ymrwymiad amlwg i leihau effeithiau amgylcheddol yr amgylchedd adeiledig.

12. Ymrwymiad amlwg i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

**Dymunol**

1. Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg uwch neu ystadau'r sector cyhoeddus.

2. Cymhwyster Iechyd a Diogelwch NEBOSH neu IOSH (neu ymrwymiad i ymgymryd â'r hyfforddiant a'r asesiad gofynnol)

3. Profiad o sefydlu'r defnydd o systemau CAFM, a datblygu a mireinio prosesau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli asedau ystadau a rhaglenni gwaith.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr** Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol** Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd** Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.